Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Adroddiad Blynyddol
Annual Report

01.08.2017 – 31.07.2018

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Adroddiad Blynyddol

1 Awst 2017 i 31 Gorffennaf 2018

Annual Report

1 August 2017 to 31 July 2018

Cynnwys

Straeon dysgwyr	4
Croeso	8
Rhagair	10
Amdanom ni	14
Amcan Strategol 1	20
Amcan Strategol 2	24
Amcan Strategol 3	34
Amcan Strategol 4	38
Amcan Strategol 5	42
Cysylltu â ni	52

Mae lluniau o ddysgwyr Cymraeg o bob rhan o Gymru i'w gweld yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Contents

Learner Stories	5
Welcome	9
Foreword	11
About us	15
Strategic Objective 1	21
Strategic Objective 2	25
Strategic Objective 3	35
Strategic Objective 4	39
Strategic Objective 5	43
Contact us	52

Pictures of Welsh learners from across Wales are featured in this Annual Report.

Straeon dysgwyr

Mae dysgu Cymraeg yn helpu Damien ail-gysylltu â'i wreiddiau

Mae'r Gymraeg bob amser wedi bod yn bwysig i Damien Downes.

Roedd ei dad yn siarad yr iaith yn rhugl a phan oedd Damien yn fachgen, byddai'n siarad Cymraeg gydag ef, ac felly roedd gan Damien rywfaint o ddealltwriaeth. Ond doedd dim llawer o gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg yn ei ysgol yng Nghasnewydd a chafodd Damien fawr o gyfle i ddatblygu ei sgiliau.

Mae gwraig Damien, Kate, yn siarad Cymraeg a phan oedd eu mab hynaf ar fin dechrau yn yr ysgol Gymraeg ym Medi 2016, bachodd Damien ar y cyfle i ddysgu'r iaith, gan ymuno â dosbarth yn y gwaith. Bu farw tad Damien yn hydref 2016. Roedd yn falch iawn o benderfyniad Damien i ddysgu Cymraeg ac mae hynny wedi bod yn sbardun i Damien ddod yn rhugl yn yr iaith.

Fe basiodd Damien ei arholiad lefel Mynediad yn 2017 ac ar ôl sefyll arholiad lefel Sylfaen yn yr haf, bydd yn dechrau cwrs Canolradd ym mis Medi.

Meddai Damien: "Mae'r Gymraeg yn rhan fawr o hunaniaeth fy ngwraig – mae ei theulu cyfan yn rhugl – ac felly mae'n bwysig bod ein plant yn cael eu magu'n ddwyieithog ac yn mynd i ysgolion Cymraeg. Pan oedd fy mab hynaf ar fin dechrau yn yr ysgol, ces i fy sbarduno i ymuno â dosbarth. Roedd fy nhad yn dod i ddiwedd ei fywyd, ac roedd mor falch pan ddywedais i mod i'n dechrau dysgu - dw i'n dysgu gymaint er ei fwyn ef ag ydw i dros fy hun.

Mae gan gyflogwr Damien, Cyfoeth Naturiol Cymru, bolisi Cymraeg. Mae'r sefydliad yn gwbl ddwyieithog yn ei holl gyfathrebu ac yn annog staff i fachu ar y cyfle i ddysgu'r iaith.

Ychwanega Damien: "Mae'n hanfodol i fy rôl yn y gwaith i gael rhywfaint o hyfedredd yn y Gymraeg, fel mod i'n gallu cynnal sgwrs broffesiynol. Mae fy ngwaith yn gefnogol dros ben; dw i'n mynychu dwy awr o ddosbarthiadau'r wythnos yn ystod y diwrnod gwaith ac yn cael fy nghefnogi yn ystod fy arholiadau.

"Mae dysgu'r iaith yn ymrwymiad gydol oes i mi; fy mwriad yw parhau i ddatblygu fy sgiliau gyda'r nod o ddod yn rhugl."

Damien Downes

Learner Stories

Learning Welsh helps Damien reconnect with his roots

For Damien Downes, the Welsh language has always played an important role in his life.

His father was fluent and often spoke to Damien in Welsh as a child, so Damien gained a basic understanding from a young age. But opportunities to practise Welsh were limited at his school in Newport and Damien never had a chance to develop his understanding.

Damien's wife, Kate, speaks Welsh and when their eldest son was due to start Welsh-medium primary school in September 2016, he took up the opportunity to learn Welsh, joining a class in his workplace. Damien's father passed away in the autumn of 2016, and his pride in Damien's decision to learn Welsh has been a driving force in his ambition to become fluent.

Damien passed his Mynediad/Entry level exam in 2017 and after taking the Sylfaen/Foundation level exam this summer, he will start a Canolradd/Intermediate course in September.

Damien says: "The Welsh language is a big part of my wife's identity - her whole family is fluent - so it's important for our children to be brought up bilingually and attend a Welsh-medium school. When my eldest son was due to start school, I was spurred on to join a class. My father was coming towards the end of his life, and when I told him I was starting to learn Welsh, he was so proud - I'm learning as much for him as I am for me."

Damien's employer, Natural Resources Wales, has a Welsh language policy. The organisation is fully bilingual in all its communications, and actively encourages its staff to take up the opportunity to learn Welsh.

Damien continues: "It's essential to my role to have some proficiency in the Welsh language, so I can hold a professional conversation. My work is incredibly supportive; I attend two hours of classes a week during the working day and I'm supported through any exams.

"This is a lifelong learning commitment for me; my plan is to continue working on my Welsh with the aim of becoming fluent."

Mae dysgu'r iaith yn helpu Ailinor deimlo'n rhan o'r gymuned

Fe ddechreuodd Ailinor Evans, o Gilgerran, Sir Benfro, ddysgu'r Gymraeg dair blynedd ôl gan ei bod hi eisiau teimlo'n rhan o'r gymuned leol.

Magwyd Ali ar aelwyd ddi-Gymraeg yn yr ardal, a symudodd i ffwrdd yn 16 oed a cholli unrhyw Gymraeg roedd hi wedi dysgu fel plentyn. Pan symudodd yn ôl, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, fe deimlodd ei bod hi eisiau ail-gydio yn yr iaith.

Fodd bynnag, fel mam brysur, yn gweithio, doedd dim amser. Yn 2015 fe ddechreuodd weithio i'r Grŵp ateb (Cymdeithas Tai Sir Benfro gynt). Roedd y sefydliad yn cynnig gwersi Cymraeg rhad ac am ddim yn ystod yr awr ginio, ac fe ymunodd Ali â'r dosbarth.

Cafodd Ali flas ar y dysgu a phenderfynodd ymuno â dosbarth nos er mwyn dysgu'n gynt. Safodd arholiad Canolradd yn yr haf, gyda'r bwriad o ddechrau cwrs Uwch, sydd ar gyfer dysgwyr profiadol.

Meddai Ali: "Dw i bob amser wedi eisiau siarad Cymraeg yn rhugl ond ro'n i'n teimlo nad oedd gen i'r amser i wneud hynny. Pan ddechreuodd fy nghyflogwr gynnal gwersi Cymraeg yn yr ystafell drws nesaf i'm swyddfa, doedd dim esgus gen i.

"Dw i'n byw mewn cymuned wledig ble mae tua 60% o'r bobl yn siarad Cymraeg yn rhugl. Dw i bob amser wedi cael croeso, ond ro'n i'n awyddus i ddysgu cymaint o Gymraeg ag o'n i'n gallu er mwyn integreiddio yn llawn yn y gymuned. Mae'r mwyafrif o'n busnesau lleol, siopau, tafarndai a chaffis yn defnyddio'r Gymraeg a dw i wedi bod wrth fy modd yn cynnal sgwrs ac yn gwneud fy negeseuon pob dydd gyda'r hyder mod i'n gallu siarad Cymraeg.

"Mae dysgu Cymraeg wedi bod o fudd yn y gwaith. Dw i'n ymwneud â thenantiaid ac mae'n dda eu bod nhw'n gallu siarad â fi yn Gymraeg os ydyn nhw'n teimlo'n fwy cyfforddus. Mae fy nghyflogwr wedi bod yn gefnogol o'm siwrne i ddysgu'r iaith ac yn rhoi amser i mi astudio a sefyll arholiadau.

"Baswn i'n annog unrhyw un sy'n ystyried dysgu Cymraeg i wneud hynny. Os nad dych chi eisiau ymroi i gwrs gyda'r nos, mae opsiynau eraill. Mae nifer o gymunedau lleol yn cynnal boreau coffi neu byddan nhw'n eich paru gyda mentor lleol i chi gwrdd a sgwrsio yn Gymraeg gyda'ch gilydd. Mae'r gymuned Gymraeg yn gefnogol dros ben ac yn annog dysgwyr gymaint ag sy'n bosibl."

Learning Welsh helps Ailinor feel more integrated with her local community

Ailinor Evans, from Cilgerran in Pembrokeshire, started learning Welsh three years ago as she wanted to feel a part of her local community.

Ali, who grew up in the area in a non-Welsh speaking family, moved away when she was 16 and lost any Welsh she had learnt when she was younger. It wasn't until she moved back 10 years later that she felt the need to pick the language back up again.

However, as a busy, working mother, the time never felt right. In 2015 she started working at the Pembrokeshire Housing Association, now called the ateb Group. The organisation offered free lunchtime Welsh classes, which Ali joined.

Ali soon found she wanted to progress more quickly and so began an evening class. She is taking her Canolradd/Intermediate exam this summer, with a view to following an Uwch/Advanced course, which is for experienced Welsh learners.

Ali says: "I have always wanted to be fluent in Welsh but felt I didn't have the time to commit to it. When my employer introduced Welsh lessons held in the room next door to my office, I didn't have an excuse any more.

"I live in a rural community where about 60% of people speak fluent Welsh. I have never been made to feel unwelcome, but I was keen to learn as much Welsh as I could to be fully integrated in the community. The majority of our local businesses, shops, pubs and cafés operate in Welsh so I have loved being able to hold a conversation and go about my daily tasks with the confidence that I can speak in Welsh.

"Learning Welsh has also benefitted me at work. My role involves speaking to tenants and it's nice that they can speak to me in Welsh if they feel more comfortable. My employer has been really supportive of my learning journey and allows me time to study and take exams.

"I would encourage anyone thinking about learning Welsh to do so. If you don't want to commit to an evening course, there are other options to try. Many local communities hold coffee mornings or will team you up with a local mentor where you can meet up and chat in Welsh together. The Welsh language community is very supportive and will encourage learners as much as they can."

Ailinor Evans

Croeso

Yr Hybarch Randolph Thomas

Cadeirydd Bwrdd Cwmni y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'n bleser cyhoeddi'r ddogfen hon, sy'n adrodd ar ail flwyddyn lawn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, corff a grëwyd i roi arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg.

Bu'n flwyddyn brysur a chyffrous o gysoni arferion ac o roi cynlluniau newydd ar waith.

Mae'r Ganolfan yn cydweithio gydag 11 o ddarparwyr, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan, ledled Cymru. Hoffwn ddiolch i'r darparwyr hynny am eu gofal o ddysgwyr y Gymraeg ac am roi cyfleoedd arbennig iddynt.

'Dyn ni eisiau i bawb allu bod yn rhan o fywyd Cymraeg Cymru. 'Dyn ni eisiau sicrhau bod gwersi cyfleus ar gael mewn cymunedau a digon o gyfleoedd i ddysgwyr fwynhau ymarfer a defnyddio eu Cymraeg.

Bu'n braf gweld y Ganolfan yn creu cyfleoedd newydd i ddysgu'r Gymraeg. Drwy sefydlu Cynllun Grant Arloesi, cynhaliwyd nifer o gyrsiau arbennig, gan gynnwys un yng Nghaerdydd ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, sefydlwyd cyrsiau'r 'Clwb Cwtsh', oedd yn darparu adloniant i blant bach wrth i'w rhieni ddechrau dysgu Cymraeg.

Cynigiodd y cynllun 'Cymraeg Gwaith' gyfleoedd newydd i bobl ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle. Un o'n cynlluniau peilot eraill yn ystod y flwyddyn oedd 'Siarad', prosiect sy'n paru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr. Bu'r parau'n cwrdd i ymarfer y Gymraeg, gyda'r siaradwyr Cymraeg yn cyflwyno dysgwyr i weithgareddau hamdden a diwylliannol Cymraeg yn eu hardaloedd. Edrychwn ymlaen at ehangu'r cynllun yn ystod y flwyddyn nesaf.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau o Fwrdd y Cwmni am eu cyfraniad, ac i Efa Gruffudd Jones, a'i thîm, am eu gwaith dyfal. Diolch hefyd i Dr Haydn E Edwards, Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan, am ei arweiniad, ac i holl aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol am rannu o'u harbenigedd.

Yr Hybarch Randolph Thomas (ail o'r dde) gyda dysgwyr Cymraeg yn yr Atom, Caerfyrddin, o'r chwith i'r dde, Anthony Sykes, Valerie Humphreys a Kirsty Jones.

The Venerable Randolph Thomas (second from right) pictured with Welsh learners at the Atom, Carmarthen, from left to right, Anthony Sykes, Valerie Humphreys and Kirsty Jones.

Welcome

The Venerable Randolph Thomas

Chair of the Board of Directors of the National Centre for Learning Welsh

It is a pleasure to publish this document, which reports on the second full year of the National Centre for Learning Welsh, an organisation created to provide strategic leadership to the Learn Welsh sector.

It has been a busy and exciting year of aligning good practice and implementing new schemes.

The Centre works with 11 providers, which run courses on its behalf throughout Wales. I would like to thank these providers for their care of Welsh language learners and for providing them with a variety of opportunities.

We want everyone to be able to take part in the Welsh language life of Wales. We want to ensure convenient lessons are available in communities with enough opportunities for learners to enjoy practising and using their Welsh.

It has been good to see the Centre creating new opportunities to learn Welsh. By establishing the Innovation Grant Scheme, a number of different courses have been held, including one in Cardiff for asylum seekers and refugees. In partnership with the Mudiad Meithrin, 'Clwb Cwtsh' courses have been set up, providing entertainment for toddlers while their parents begin to learn Welsh.

The 'Work Welsh' scheme created new opportunities for people to learn Welsh in the workplace, while 'Siarad', a project that pairs Welsh speakers with Welsh learners was also piloted during the year. Pairs met to practise their Welsh, with the Welsh speakers introducing learners to Welsh language leisure and cultural activities in their areas. We look forward to extending the scheme in the coming year.

I would like to thank my fellow members on the Board of Directors for their contribution, and Efa Gruffudd Jones and her team for their diligent work. Thanks are due also to Dr Haydn E Edwards, Chair of the Centre's Advisory Board, for his leadership, and to all members of the Advisory Board for sharing their expertise.

Rhagair

Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr

Gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi'i sefydlu, bu'n fraint gweld y gweithgarwch yn datblygu dros y flwyddyn, gyda chynlluniau yn cael eu gwireddu'n brosiectau ymarferol.

Bu'n bleser cyfarfod, a chael fy ysbrydoli gan ddysgwyr o bob rhan o Gymru – pawb ar eu taith iaith bersonol; bu'n bleser, hefyd, gweld tiwtoriaid ymroddgar wrth eu gwaith.

Drwy ei holl waith, amcan y Ganolfan yw cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. 'Dyn ni eisiau gwneud hynny drwy sicrhau bod modd i bawb gael y cyfle a'r gefnogaeth i ddysgu Cymraeg. Mae'r Strategaeth Cymraeg 2050 am weld datblygiad ar draws tair thema strategol ac mae gwaith y Ganolfan yn cyfrannu at y cyfan:

Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Mae cwricwlwm cenedlaethol newydd y sector Dysgu Cymraeg yn nodi y gall siaradwyr nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt siarad yn rhydd am destunau pob dydd ar lefelau Canolradd ac Uwch. Mae oddeutu traean o ddysgwyr y Ganolfan yn dysgu ar lefelau Canolradd ac Uwch ar ein cyrsiau prif ffrwd (cyrsiau sy'n cynnig o leiaf 50 awr y flwyddyn). Dyma siaradwyr newydd y Gymraeg, ac mae angen eu croesawu a'u cefnogi.

Datblygwyd y ddarpariaeth ar gyfer ein dysgwyr prif ffrwd yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd cyrsiau cenedlaethol am y tro cyntaf erioed ar lefel Mynediad a lefel Uwch, y bydd dysgwyr ar draws Cymru yn dilyn o Fedi 2018 ymlaen, a lansiwyd adnoddau newydd.

Roedd yn wych cael cyflwyno 'Cymraeg Gwaith', cynllun newydd i gryfhau defnydd y Gymraeg mewn gweithleoedd. Hyd yma, mae 5,410 o weithwyr wedi dysgu o dan y cynllun. Mae'r cynllun wedi bod o fudd i sefydliadau wrth iddynt gyflawni eu gofynion o dan y Safonau Iaith, ac wedi bod o gymorth i weithleoedd a sefydliadau bychain, gan roi cyfle i bawb ddysgu'r Gymraeg. Mae gweithwyr wedi gallu cynyddu eu sgiliau Cymraeg a magu hyder i'w defnyddio yn y gweithle.

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Mae'r cynllun 'Cymraeg Gwaith' wedi esgor ar brosiectau newydd gyda'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, y byd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r maes Blynyddoedd Cynnar. I'r dyfodol, gobeithiwn allu parhau i ymateb i'r galw cynyddol am wersi Cymraeg mewn gweithleoedd yng Nghymru.

Trwy gyfrwng prosiectau peilot arloesol, megis 'Siarad', sy'n paru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr, a thrwy gydweithio'n bartneriaethol gydag asiantaethau allanol, mae mwy o gyfleoedd wedi'u creu i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae ein darparwyr a'n partneriaid ar draws Cymru yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol cyson i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg.

Foreword

Efa Gruffudd Jones, Chief Executive

With the establishment of the National Centre for Learning Welsh, it has been a privilege to see activity develop over the year, with the realisation of strategic plans into practical projects.

It has been a pleasure to meet and be inspired by learners from all parts of Wales – all on their own personal language journey; it has also been a pleasure to see dedicated tutors at work.

Through all its work, the Centre's objective is to contribute to the Welsh Government's aim of creating a million Welsh speakers by 2050. We want to do this by ensuring everyone has the opportunity and support they need to learn Welsh. The Welsh Language Strategy 2050 looks for development across three strategic themes and the work of the Centre contributes to each one:

Increasing the number of Welsh speakers

The new national curriculum for the Learn Welsh sector notes that speakers who do not have Welsh as a first language can speak easily about everyday subjects at Intermediate and Advanced levels. Around a third of the Centre's learners are learning at Intermediate and Advanced levels on our mainstream courses (courses of at least 50 hours a year). These are the new Welsh speakers, and they need to be welcomed and supported.

Provision for our mainstream learners has been developed during the year. National courses have been introduced for the first time ever at Entry and Advanced level, to be followed by learners across Wales from September 2018, and new resources launched.

It was wonderful to introduce 'Work Welsh', a new scheme to strengthen the use of Welsh in workplaces. Thus far, 5,410 workers have learned under this scheme, which has benefited institutions as they meet their requirements under the Welsh Language Standards. It has also supported small workplaces and institutions, providing everyone with an opportunity to learn Welsh. Workers have been able to progress their Welsh language skills and gain confidence to use their skills in the workplace.

Increasing the use of Welsh

The 'Work Welsh' scheme has led to new projects with the Further and Higher Education sectors, Health and Social Care and Early Years sector. In future we hope to be able to continue to respond to the increasing demand for Welsh lessons in workplaces in Wales.

Through innovative pilot projects, such as 'Siarad', which pairs Welsh speakers with learners, and by working in partnership with external agencies, more opportunities have been created for learners to use their Welsh outside class. Our providers and partners across Wales provide regular social opportunities to support learners in using their Welsh.

Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd Safle Rhyngweithiol newydd y Ganolfan - dysgucymraeg.cymru neu learnwelsh.cymru - sy'n ffenestr siop ar yr hyn sydd ar gael i ddysgwyr.

Am y tro cyntaf, gall dysgwyr unrhyw le yng Nghymru ddod o hyd i wybodaeth am gyrsiau lleol iddyn nhw, neu am gyrsiau preswyl. Mae'r Safle hefyd yn gartref i lu o adnoddau digidol ac i gwrs 10-awr rhad ac am ddim i unrhyw un sydd eisiau eu blas cyntaf o'r Gymraeg.

Hoffwn ddiolch i'n darparwyr am y cydweithio creadigol yn ystod y flwyddyn. O'r cychwyn, dw i wedi bod yn awyddus i sicrhau Canolfan y mae pawb yn teimlo'n rhan ohoni, a thrwy gynnull grwpiau ac ymgynghori'n gyson, gobeithiaf fod pawb wedi gallu cyfrannu syniadau a phrofiadau.

Hoffwn longyfarch Dysgu Cymraeg Morgannwg yn arbennig am yr adroddiad cadarnhaol a gafwyd gan Estyn ar eu gwaith, ac roedd yn hyfryd gweld y frawddeg hon:

"Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn gymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol sy'n gosod y dysgwyr wrth wraidd yr holl weithgareddau."

Cefais gyfle yn ystod y flwyddyn i ddysgu o brofiadau gwledydd eraill wrth gymryd rhan mewn cynadleddau yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.

Edrychwn ymlaen yn awr at barhau i roi ein cynlluniau ar waith a chefnogi ein darparwyr i roi profiadau arbennig i ddysgwyr. Ni fyddai'n bosibl i'r Ganolfan gyflawni ei gwaith canolog heb dîm gwych o staff – mae fy niolch yn fawr iddynt. Diolch hefyd i'r Bwrdd Cwmni a'r Bwrdd Ymgynghorol am eu harweiniad cadarn a'u cefnogaeth gydol y flwyddyn.

Efa Gruffudd Jones (ar y dde, ar y pen) gyda dysgwyr Cymraeg o Batagonia, o'r chwith i'r dde, Alcira Williams, Noe Jenkins a Mariel Jones. Fe wnaeth y tair ennill ysgoloriaethau gyda'r Ganolfan i ddysgu Cymraeg yn Aberystwyth dros haf 2017.

Efa Gruffudd Jones (far right) pictured with Welsh learners from Patagonia, from left to right, Alcira Williams, Noe Jenkins and Mariel Jones, who won scholarships with the Centre to study Welsh at Aberystwyth during the summer of 2017.

Creating favourable conditions – infrastructure and context

During the year, the Centre's new Interactive Site was launched: dysgucymraeg.cymru or learnwelsh.cymru. This provides a shop window on the offer available to learners.

For the first time, learners anywhere in Wales can find information on courses local to them, or residential courses. The site also hosts a wealth of digital resources and a free 10-hour course for anyone wanting their first taste of the language.

I would like to thank our providers for their creative cooperation during the year. From the outset, I have been anxious to secure a Centre that everyone feels a part of, and by bringing together groups and regular consultation I hope that everyone has been able to contribute thoughts and experiences.

I would very much like to congratulate Learn Welsh Glamorgan on the positive Estyn report on their work, where it was wonderful to see this sentence:

"Learn Welsh Glamorgan is a caring and inclusive community that places learners at the heart of all of its activities."

I had the opportunity during the year to learn from the experiences of other countries by taking part in conferences in Scotland and Northern Ireland.

We now look forward to continuing to implement our plans and support our providers in giving learners outstanding experiences. The Centre could not carry out its central task without an excellent team of staff, to whom I am very grateful. Thanks are due also to the Company Board and Advisory Board for their firm leadership and support throughout the year.

Amdanom ni

Ym mis Mai 2015, dyfarnwyd i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant y gwaith o sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, corff newydd hyd braich wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg gymunedol Cymraeg i Oedolion – o'r cwricwlwm ac adnoddau i ymchwil, marchnata a datblygiadau digidol.

Y deilliannau craidd a osodwyd i'r Ganolfan gan y Llywodraeth yw:

- Bod yn sefydliad gweledol sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r maes.
- Cynnig arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion.
- Codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion.
- Datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon a chynhyrchu adnoddau sy'n addas i bob mathau o ddysgwyr.

Ar 1 Awst 2016, dechreuodd y Ganolfan ariannu 11 o ddarparwyr yn dilyn proses o ad-drefnu. Mae'r darparwyr yn cynnig gwersi ar draws Cymru, ac yn cefnogi dysgwyr y Gymraeg. Cynhelir y gwersi mewn cymunedau ac anelir at sicrhau bod modd i bawb ddod o hyd i gwrs ar y lefel gywir o fewn pellter rhesymol i'w cartref neu fan gwaith.

About us

In May 2015, the work of establishing the National Centre for Learning Welsh, a new arm's length body funded by the Welsh Government, was awarded to the University of Wales Trinity Saint David. The Centre is responsible for all aspects of the community education programme, Welsh for Adults – from the curriculum and resources to research, marketing and digital developments.

The core outcomes set for the Centre by the Welsh Government are to:

- Be a visible institution setting a national strategic direction for the Welsh for Adults sector.
- Provide leadership for the Centre's providers.
- Raise standards in teaching and learning Welsh for Adults.
- Develop a high quality, appropriate, engaging national curriculum and produce resources suitable for a range of learners at all levels.

On 1 August 2016, the Centre began to fund 11 providers following a re-structuring process. The providers offer courses across Wales and support Welsh learners. Classes are held in community settings; our aim is that people can find a suitable class within a reasonable distance of their home or workplace.

Cynllun Strategol

Mae Cynllun Strategol 2016-2020 y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnwys pum prif amcan:

1. **Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf.**
2. **Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.**
3. **Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth.**
4. **Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu'r Gymraeg.**
5. **Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion hynny.

Strategic Plan

The Strategic Plan for the National Centre for Learning Welsh for the period 2016-2020 includes five key objectives:

1. **Develop an innovative programme of attractive and suitable courses for learners making full use of the latest technology.**
2. **Develop innovative schemes to secure opportunities and contexts where learners can use their Welsh with confidence.**
3. **Establish a network of providers to offer a service of excellence.**
4. **Raise the profile of the sector and increase the numbers who start courses and continue to learn Welsh.**
5. **Establish and maintain service support procedures.**

The Annual Report reports on progress against these objectives.

Lefelau'r sector Dysgu Cymraeg

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gael ar wahanol lefelau, sy'n cyd-fynd â lefelau dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop.

Enw'r lefel	Disgrifiad	Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop	Isafswm oriau cyswllt a argymhellir
Mynediad	Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.	A1	120
Sylfaen	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Mynediad ac yn gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Mae'r prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau.	A2	120
Canolradd	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Sylfaen ac yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando.	B1	120
Uwch	Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando.	B2	360
Hyfedredd	Mae'r cyrsiau Hyfedredd, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth. Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau presennol y myfyrwyr ymhellach a'u helpu i fagu hyder.		

Yn ogystal â chyrsiau prif ffrwd – cyrsiau sy'n cynnig o leiaf 50 awr y flwyddyn – mae cyrsiau dysgu atodol hefyd yn cael eu cynnig. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys Sadyrnau Siarad, cwrs undydd lle caiff dysgwyr o wahanol ddosbarthiadau gyfle i gwrdd, cyrsiau penwythnos, sesiynau arbenigol a chyrsiau adolygu.

Levels in the Learn Welsh Sector

Learn Welsh courses provided through the National Centre for Learning Welsh are available at different levels, corresponding to the learning levels of the Common European Framework.

Name of level	Description	Learning levels of the Common European Framework	Recommended minimum number of contact hours
Entry	Courses for beginners, introducing simple vocabulary and linguistic patterns and everyday phrases. The emphasis is on speaking the language.	A1	120
Foundation	This level builds on Entry and requires some experience of Welsh. The main emphasis is on speaking, with an opportunity to discuss everyday subjects such as family and friends, work and hobbies.	A2	120
Intermediate	This level builds on Foundation and is suitable for those who are familiar with the main patterns of Welsh. There is an opportunity to develop conversational skills, with a little more writing, reading and listening.	B1	120
Advanced	This is an opportunity to discuss all kinds of subjects and themes. Learners also develop their reading, writing and listening skills.	B2	360
Proficiency	Proficiency courses, suitable for fluent learners and first language speakers, are tailored to the needs of the class. The general aim is to further develop students' existing skills and help them gain confidence.		

In addition to mainstream courses – those offering at least 50 hours a year – supplementary learning courses are also available. These include one-day schools such as the Saturday courses, known as 'Sadyrnau Siarad', where learners from different classes have an opportunity to meet, weekend courses, specialist sessions and revision courses.

Amcan Strategol 1:

Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf

Cyrsiau newydd
Gwersi cyfoes

Cyrsiau newydd

Mae datblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan yn 2017, wedi bod yn sylfaen gadarn ar gyfer llunio cyrsiau newydd. Mae'r cwricwlwm hefyd wedi cynorthwyo partneriaid sy'n darparu adnoddau ar gyfer y sector.

Mae'r gwaith o greu cyrsiau cenedlaethol am y tro cyntaf erioed wedi dechrau o ddifri. Cynhaliwyd cyrsiau peilot Mynediad ar gyfer dechreuwyr yn y gogledd, a chyrsiau Uwch Rhan 1 ar gyfer dysgwyr profiadol yn y de. Yn dilyn casglu adborth, mae'r cyrsiau wedi'u datblygu ymhellach a byddant yn cael eu cyflwyno o fis Medi ymlaen. Mae'r cwrs Mynediad wedi'i strwythuro ac yn adeiladu patrymau'n rheolaidd gan roi digon o gyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau llafar. Mae'r cwrs Uwch yn dilyn themâu gwahanol sy'n caniatáu i'r dysgwyr ddatblygu geirfa eang tra'n trafod gwahanol bynciau. Datblygwyd adnoddau ar-lein cenedlaethol am y tro cyntaf i gefnogi'r cyrsiau newydd.

Tra'n peilota cyrsiau Mynediad ac Uwch Rhan 1, mae'r gwaith o awduro cyrsiau Sylfaen ac Uwch Rhan 2 wedi parhau a bydd y cyrsiau hyn yn cael eu peilota yn 2018-19.

Strategic Objective 1:

Develop an innovative programme of attractive and suitable courses for learners making full use of the latest technology

New courses
Contemporary lessons

New courses

The development of a new national curriculum for the Learn Welsh sector, introduced by the Centre in 2017, has provided a firm foundation for the design of new courses. The curriculum has also helped partners providing resources for the sector.

Work to create national courses for the first time ever has started in earnest. Entry level pilot courses were held for beginners in North Wales, and Advanced Part 1 courses for experienced learners in South Wales. Feedback was collected and the courses further developed for introduction from September 2018. The Entry level is a structured course introducing language patterns logically and providing opportunities for learners to develop their oral skills. The Advanced courses introduce a new theme in each unit enabling learners to develop their vocabulary while discussing various topics. National online resources have been developed for the first time to support the new courses.

While piloting the Entry and Advanced Part 1 courses, work to author Foundation and Advanced Part 2 courses has continued and these will be piloted in 2018-19.

Gwersi cyfoes

Mae'r Ganolfan o'r farn ei bod yn bwysig iawn bod deunydd cyfoes ar gael, yn enwedig ar gyrsiau Uwch, er mwyn cyflwyno dysgwyr i'r bywyd Cymraeg. Lluniwyd pum gwers arbennig yn ystod y flwyddyn, gan ymgynghori â nifer o bartneriaid ar themâu a chynnwys y cyrsiau. Lluniwyd gwersi ar gyfresi teledu 'Un Bore Mercher' a 'Ffit Cymru' mewn cydweithrediad ag S4C, drama lwyfan 'Y Tad' mewn cydweithrediad â'r Theatr Genedlaethol, dathliad Llywodraeth Cymru o gerddoriaeth Gymraeg, Dydd Miwsig Cymru, a Chwpan Pêl-droed y Byd 2018.

Yn y gorffennol, mae tiwtoriaid wedi bod yn gyfrifol am greu a chasglu adnoddau o ansawdd i ategu gwersi. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn a chysoni arferion da, lluniwyd blwch o adnoddau atodol gyda diwyg proffesiynol – yn gemau a phosau lliwgar a hwyliog - ar gyfer pob tiwtor yng Nghymru. I'r dyfodol, bydd tiwtoriaid yn derbyn blwch o adnoddau i gefnogi'r cyrsiau newydd.

Mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn parhau i ddarparu arholiadau ar gyfer y sector, sy'n cael eu hyrwyddo gan y Ganolfan.

Daeth dros gant o diwtoriaid o bob cwr o Gymru ynghyd ar gyfer cynhadledd genedlaethol ym mis Ebrill yng Nghanolfan Nant Gwrtheyrn. Y prif siaradwyr oedd David Heathfield, sy'n arbenigo ar ddefnyddio grym stori wrth ddysgu iaith, a Dr Sarah Cooper o Brifysgol Bangor oedd yn trafod heriau ynganu. Bydd y Ganolfan yn buddsoddi mewn datblygu adnoddau i gynorthwyo gydag ynganu yn ystod 2018-19.

Contemporary lessons

The Centre believes it is very important that contemporary material be made available, particularly on Advanced courses, in order to introduce learners to aspects of modern-day Welsh culture. Five special lessons were produced during the year, in consultation with a number of partners. Lessons were devised on the television series 'Un Bore Mercher' and 'Ffit Cymru' in cooperation with S4C, on the play 'Y Tad' in cooperation with the Theatr Genedlaethol, on the Welsh Government celebration of Welsh language music, Dydd Miwsig Cymru, and the 2018 FIFA World Cup.

In the past, the creation and collation of quality resources to support lessons has been the responsibility of tutors. In order to facilitate this work and align good practice, a box of professionally designed supplementary resources has been produced, including colourful and fun-filled games and puzzles, for all tutors in Wales. In future, tutors will receive a box of resources to support the new courses.

The Welsh Joint Education Committee (WJEC) continues to provide examinations for the sector, promoted by the Centre.

Over 100 tutors from all parts of Wales came together for a national conference in April at the Nant Gwrtheyrn language centre on the Llŷn Peninsula. Keynote speakers included David Heathfield, who specialises on using the power of storytelling in learning a language, and Dr Sarah Cooper from Bangor University who discussed the challenges of pronunciation. The Centre will invest in developing resources to support pronunciation during 2018-19.

Llun/Photo: Warren Orchard

Delwedd hyrwyddo o ddrama 'Y Tad'.
A publicity shot from drama 'Y Tad'.

Amcan Strategol 2:

Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus

Cymraeg Gwaith // Partneriaethau Clwb Cwtsh // Siarad

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan yn nodi y bydd y Ganolfan yn 'datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.' Un o'r meysydd twf ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg yw'r defnydd ohoni yn y gweithle. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i'r Ganolfan i weithredu cynllun newydd ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y gweithle, o Ebrill 2017-Mawrth 2018. Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth barhad i'r cynllun am ail flwyddyn (hyd at Fawrth 2019).

Datblygodd y Ganolfan y cynllun 'Cymraeg Gwaith', sy'n cynnwys pedair prif elfen:

- **Gwasanaeth a gwybodaeth i gyflogwyr** – gan gynnwys cyngor ar gynllunio'r gweithlu a chynnal hyfforddiant, cyngor ar asesu sgiliau a chyngor ôl-ofal i ddysgwyr.
- **Cwrs ar-lein** ar gyfer dechreuwyr sydd heb sgiliau Cymraeg i'w galluogi i ddelio â'r cyhoedd gan ddefnyddio ymadroddion parod.
- **Cyrsiau dwys** i alluogi gweithwyr i wneud cynnydd arwyddocaol yn eu sgiliau Cymraeg, er mwyn cynyddu capasiti gweithleoedd i gynnig gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.
- **Cyrsiau preswyl** pum niwrnod o hyd i ddatblygu sgiliau a magu hyder. Cynhaliwyd y cyrsiau mewn tri lleoliad, sef Canolfan Nant Gwrtheyrn ym Mhen Llŷn, Castell Aberteifi a Chaerdydd.

Strategic Objective 2:

Develop innovative schemes to secure opportunities and contexts where learners can use their Welsh with confidence

Work Welsh // Partnerships Clwb Cwtsh // Siarad

The Centre's Strategic Plan for 2016-2020 notes that the Centre will 'develop innovative schemes to secure opportunities and contexts where learners can use their Welsh with confidence'. One area of growth for learning and using Welsh is the use of Welsh in the workplace. In January 2017, the Welsh Government announced additional funding for the Centre to implement a new scheme to develop Welsh in the workplace, from April 2017-March 2018. In February 2018, the Government announced the continuation of the scheme for a second year (to March 2019).

The Centre developed the 'Work Welsh' scheme, which includes four main elements:

- **Service and information for employers** including advice on workforce planning and training, advice on assessing skills and after-care advice for learners.
- **Online course** for beginners with no Welsh language skills to enable them to deal with the public, using prepared phrases.
- **Intensive courses** to enable workers to make significant progress in their Welsh language skills, in order to increase workplace capacity to offer bilingual services for the public.
- **Residential courses** of five days in length to develop skills and confidence. Courses were held in three locations: the Nant Gwrtheyrn language centre on the Llŷn Peninsula, Cardigan Castle and Cardiff.

O'r chwith i'r dde, Dona Lewis, Dirprwy Brif Weithredwr y Ganolfan, Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr y Ganolfan mewn digwyddiad ar gyfer cyflogwyr Cymraeg Gwaith.

From left to right, Dona Lewis, the Centre's Deputy Chief Executive, Eluned Morgan AM, Minister for Welsh Language and Lifelong Learning and Efa Gruffudd Jones, the Centre's Chief Executive at an event for Work Welsh employers.

Gweithwyr BT Cymru yng nghanolfan y cwmni yn Abertawe yn croesawu'r cynllun Cymraeg Gwaith.

Workers at BT Wales' Swansea centre welcoming the Work Welsh scheme.

Lluniwyd rhaglen ymgysylltu wyneb-yn-wyneb i hyrwyddo'r cynllun, gyda'r pwyslais yn y lle cyntaf ar sefydliadau sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Safonau Iaith. Cynhaliwyd cyfarfodydd un-i-un gydag 118 o gyflogwyr a rhoddwyd cyflwyniadau mewn gweithdai, cynadleddau a digwyddiadau sectorol. Datblygwyd adran Cymraeg Gwaith ar Safle Rhyngweithiol y Ganolfan i gartrefu gwybodaeth ynghyd â'r cwrs ar-lein.

Cymraeg Cynnar

Sefydlwyd cynllun arbennig ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar yn dilyn trafodaethau gyda rhwydwaith Cwlwm (sefydliadau gofal plant a chwarae Cymru). Daeth yn amlwg bod tystiolaeth yn wan o fewn y sector am lefelau ieithyddol ymarferwyr ac o ganlyniad, ei bod yn anodd adnabod anghenion hyfforddiant. Datblygwyd cynllun i asesu lefelau'r gweithlu, i gychwyn gosod gwaelodlin sgiliau iaith. Aseswyd lefelau 600 o ymarferwyr, gyda'r canlyniadau yn dangos bod y mwyafrif ar lefel Cyn-fynediad ond bod nifer ar y lefelau Canolradd ac Uwch (yn benodol yn gweithio mewn cylchoedd meithrin). Yn sgil y gwaith hwn, comisiynwyd cyrsiau hyfforddiant ar gyfer y sector a bydd rhain yn cael eu darparu yn ystod 2018-2019.

Sector preifat

Denwyd diddordeb BT Cymru yn y cynllun ac aed ati i lunio rhaglen benodol ar eu cyfer, gan drafod gyda Bwrdd ac Uwch Reolwyr y cwmni. Mae 75 gweithiwr yng nghanolfan alwadau'r cwmni yn Abertawe wedi dysgu drwy'r cwrs ar-lein, ac mae cyrsiau dysgu dwys wedi'u cynnal hefyd. Fe wnaeth nifer o gwmnïau preifat eraill fanteisio ar y cynllun, ac mae Cymraeg Gwaith ar agor i gwmnïau o bob maint yn y sector preifat.

Ymateb

Gwasanaeth a gwybodaeth i gyflogwyr

Cyflwynwyd y gwasanaeth a gwybodaeth i gyflogwyr i 88 o gyflogwyr, yn eu plith Cynghorau Sir, Byrddau Iechyd, yr heddluoedd, elusennau, colegau addysg bellach a phrifysgolion, Amgueddfa Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Cwrs ar-lein

Fe wnaeth 176 o gyflogwyr a 3,815 o ddysgwyr fanteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg drwy'r cwrs ar-lein.

Yn sgil y llwyddiant yma, comisiynwyd cyrsiau ar-lein pellach:

- Cwrs Croeso Nôl:
  Dilyniant o'r cwrs gwreiddiol
- Croeso Iechyd Cymraeg Gwaith
- Croeso Gofal Cymraeg Gwaith
- Croeso Manwerthu Cymraeg Gwaith
- Croeso Lletygarwch/Twristiaeth Cymraeg Gwaith
- Cymraeg Gwaith Gloywi

A face-to-face engagement programme was undertaken to promote the scheme, with the initial emphasis on public sector institutions subject to the Welsh Language Standards. One-to-one meetings were held with 118 employers and presentations were given in workshops, conferences and sector events. A Work Welsh section was developed on the Centre's Interactive Site to host information, as well as the online course.

Early Welsh

A special scheme was established for the Early Years sector following discussions with the Cwlwm network (childcare and play settings in Wales). It had become apparent that evidence in the sector of practitioners' linguistic levels was weak, making it difficult to identify training needs. A scheme was developed to assess workforce levels, to begin to set out a baseline for language skills. The levels of 600 practitioners were assessed, with the results showing that the majority were at Pre-Entry level, with a number at Intermediate and Advanced level (particularly working in nursery groups). As a follow-up to this work, training courses for the sector were commissioned and will be delivered during 2018-2019.

Private sector

Work Welsh drew the interest of BT Wales and a specific programme was drawn up for the company, in discussion with its Board and Senior Management. At the company call centre in Swansea, 75 employees have learned through the online course, while intensive courses have also been held. A number of other private companies took advantage of the scheme, and Work Welsh is open to companies of all sizes in the private sector.

Take-up

Service and information for employers

The service and information for employers sessions were held with 88 employers, including County Councils, Health Boards, police forces, charities, further education colleges and universities, Amgueddfa Cymru– National Museum Wales and Welsh National Opera.

Online course

176 employers and 3,815 learners took up the opportunity to learn Welsh through the online course.

Following on from this success, further online courses have been commissioned:

- Welcome Back Course:
  A follow-up to the original course
- Work Welsh Welcome Health
- Work Welsh Welcome Care
- Work Welsh Welcome Retail
- Work Welsh Welcome Hospitality/Tourism
- Work Welsh Improve

Cyrsiau dwys

Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Wrth gynnal trafodaethau gyda'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, daeth i'r amlwg bod angen hyblygrwydd wrth gynnig y cyrsiau. Datblygwyd cynllun Dysgu Dwys penodol mewn partneriaeth â Cholegau Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn sgil y cynllun hwn, mae 227 o weithwyr yn y sector Addysg Uwch wedi dilyn a chyflawni cwrs dysgu dwys, ac wedi dysgu am o leiaf 100 awr. Mae 185 o weithwyr Addysg Bellach wedi dilyn a chyflawni cwrs dysgu dwys, ac wedi dysgu am o leiaf 100 awr. Gwnaeth 11 coleg Addysg Bellach ac wyth prifysgol ymrwymo i'r cynllun.

Mynychodd 173 o unigolion o sectorau eraill 15 o gyrsiau Dysgu Dwys, gyda 17 o gyflogwyr yn rhyddhau staff o'u gwaith i fynychu'r cyrsiau mewn lleoliadau amrywiol ar draws Cymru. Datblygwyd modelau dysgu hyblyg er mwyn ymateb i anghenion cyflogwyr ac er mwyn eu hannog i ryddhau staff. Profodd hyn yn llwyddiannus ac ar gyfartaledd cynigiodd y cyrsiau dwys gyfanswm o 210 awr o ddysgu, oedd yn caniatáu cynnydd da. Mae'n braf nodi bod 65% o'r dysgwyr a'u cyflogwyr wedi ymrwymo i ddilyn cyrsiau pellach yn 2018-2019, a hynny ar y lefel nesaf o ddysgu.

Cyrsiau preswyl

Mynychodd 303 o ddysgwyr o blith 37 o gyflogwyr amrywiol 27 cwrs preswyl. Mae mynychwyr y cyrsiau wedi amrywio, gyda 29% (88) o'r rhai a fynychodd ar lefel rheolwr neu uwch. Cynhaliwyd pedwar cwrs ar lefel Mynediad, pum cwrs ar lefel Canolradd a naw cwrs ar lefel Uwch, gyda'r cyrsiau Canolradd ac Uwch yn canolbwyntio yn benodol ar godi hyder.

Erfyn Diagnostig

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd erfyn diagnostig newydd o'r enw y 'Gwiriwr Lefel' i fesur sgiliau Cymraeg unigolion. Bydd y 'Gwiriwr Lefel' ar gael yn y lle cyntaf i gyflogwyr Cymraeg Gwaith.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno targedau gwreiddiol y cynllun, ynghyd â'r cyflawniad a chyrhaeddiad.

Gwaith	Targed	Cyflawniad	Cyrhaeddiad
Gwasanaeth a gwybodaeth	80 sesiwn hyfforddiant	88 sesiwn hyfforddiant	110%
Cwrs ar-lein	800 unigolyn	3815 unigolyn	477%
Preswyl	280 unigolyn	303 unigolyn	108%
Dysgu Dwys	350 unigolyn	572 unigolyn	163%
Cymraeg Cynnar	100 unigolyn	600 unigolyn	600%
Cyfanswm	**1,610**	**5,410**	**336%**

Intensive courses

Further and Higher Education

During discussions with the Further and Higher Education sectors, it became apparent that flexibility was needed in offering courses. A specific intensive learning scheme was developed in partnership with Colleges Wales and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Following this scheme, 227 employees in the Higher Education sector have followed and completed an intensive course, and learned for at least 100 hours. One hundred and eighty-five Further Education employees have followed and completed an intensive course, and learned for at least 100 hours. Eleven Further Education colleges and eight universities committed to the scheme.

Fifteen intensive learning courses were followed by 173 individuals from other sectors, with 17 employers releasing staff from work to attend courses in a variety of locations across Wales. Flexible learning models were developed in response to employer needs and to encourage staff release. This proved successful and the intensive courses offered an average of 210 hours of learning, which allowed good progress. It is good to note that 65% of learners and employers have committed to pursuing follow-up courses in 2018-2019, at the next level of learning.

Residential courses

Over 300 learners from 37 different employers attended 27 residential courses. 29% (88) of those students were working at management or senior level. Four courses were held at Entry level, five courses at Intermediate level and nine courses at Advanced level. Intermediate and Advanced courses concentrated specifically on increasing confidence.

Diagnostic Tool

During the year a new diagnostic tool known as the 'Level Checker' was developed to measure individuals' Welsh language skills. The Level Checker will be available in the first instance to Work Welsh employers.

The table below sets out the original targets for the scheme, together with uptake and achievement.

Work	Target	Uptake	Achievement
Service and information	80 training sessions	88 training sessions	110%
Online course	800 individuals	3815 individuals	477%
Residential	280 individuals	303 individuals	108%
Intensive Learning	350 individuals	572 individuals	163%
Early Welsh	100 individuals	600 individuals	600%
Total	**1,610**	**5,410**	**336%**

Clwb Cwtsh

Mae'r cynllun Clwb Cwtsh yn bartneriaeth newydd rhwng y Ganolfan a Mudiad Meithrin. Mae'r Mudiad Meithrin mewn safle da i adnabod oedolion sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg gan fod ar gyfartaledd 80% o blant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn dod o gartrefi Saesneg neu gymysg eu hiaith.

Sefydlwyd rhaglen o gyrsiau blasu ar gyfer rhieni, gofalwyr a theuluoedd a gynhaliwyd mewn cymunedau ledled Cymru rhwng Rhagfyr 2017 a Gorffennaf 2018. Cynhaliwyd y cyrsiau wyth wythnos o hyd mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol; roedd croeso i ddysgwyr fynychu gyda'u plant a darparwyd adloniant ar eu cyfer. Roedd y cyrsiau thematig yn canolbwyntio ar sgiliau magu plant a chyfathrebu gyda phlant drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. Amser Dweud Helo, Amser Chwarae, Amser Bwyd, Amser Darllen ac ati.

Mae oddeutu 600 o unigolion wedi mynychu 48 o gyrsiau. Byddant yn cael eu hannog i barhau i ddysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan ac i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn y cartref.

Mae adborth cychwynnol (cwblhawyd 401 o holiaduron erbyn Mehefin 2018) yn gadarnhaol, gyda nifer uchel yn nodi awydd i barhau i ddysgu'r Gymraeg. Bydd y cynllun yn cael ei gynnal eto yn 2018-2019 .



Partneriaethau

Ar y cyd ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ar 21 Ebrill 2018 cynhaliodd y Ganolfan yr ŵyl genedlaethol i ddysgwyr, 'Ar Lafar', am yr ail flwyddyn. Nod yr ŵyl yw rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan ddod i wybod mwy am hanes a diwylliant Cymru ar yr un pryd.

Daeth dysgwyr ynghyd ar bedwar safle - Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth – i fwynhau gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cydweithiodd y Ganolfan â Chyngor Llyfrau Cymru ar gynllun i gyflwyno 20 o lyfrau darllen hamdden newydd i oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Cyhoeddwyd chwe llyfr yn Ebrill a phedwar arall ym mis Mehefin. Lansiwyd y cynllun gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan, yn Eisteddfod yr Urdd. Bydd y gyfres yn gyfan erbyn mis Tachwedd 2018. Mae'r cynllun yn ffordd o annog dysgwyr i ddarllen yn gynnar iawn yn eu taith tuag at ruglder ac o ddenu dysgwyr at ddarllen llyfrau Cymraeg yn gyffredinol.

Clwb Cwtsh

The Clwb Cwtsh scheme is a new partnership between the Centre and the Mudiad Meithrin. The Mudiad Meithrin is well placed to identify adults keen to learn Welsh since on average 80% of the children attending its nursery groups come from English-speaking or mixed language homes.

A programme of taster courses was established for parents, carers and families and held in communities throughout Wales between December 2017 and July 2018. The eight-week courses were held in a friendly and informal atmosphere; learners were welcome to attend with their children, for whom entertainment was provided. The thematic courses focused on parenting skills and communicating with children through the medium of Welsh e.g. Time to Say Hello, Playtime, Mealtime, Time to Read etc.

Approximately 600 individuals have followed 48 courses. They will be encouraged to continue to learn Welsh with the Centre and to use their Welsh at home with their children.

Initial feedback (401 questionnaires completed by June 2018) is positive, with high numbers reporting a desire to continue learning Welsh. The scheme will be run again in 2018-2019.

Partnerships

In conjunction with Amgueddfa Cymru – National Museum Wales and the National Library of Wales, on 21 April 2018 the Centre held a national festival for Welsh learners, 'Ar Lafar', for the second year running. The aim of the festival is to give learners an opportunity to use their Welsh outside the classroom, while also learning more about Welsh history and culture.

Learners came together at four sites – St Fagans National History Museum, National Maritime Museum, Swansea, National Slate Museum, Llanberis and the National Library in Aberystwyth – and enjoyed activities through the medium of Welsh.

The Centre worked with the Welsh Books Council on a scheme to publish 20 new leisure reading books for adults learning Welsh. Six books were published in April and another four in June. The scheme was launched by the Minister for Welsh Language and Lifelong Learning, Eluned Morgan, at the Urdd Eisteddfod. The series will be complete by November 2018. The scheme aims to encourage learners to read Welsh early on their journey towards fluency and to read Welsh books in general.

Aelodau Clwb Cwtsh Castell Nedd a Phort Talbot.
Members of the Clwb Cwtsh in Neath Port Talbot.

Gweithiodd y Ganolfan mewn partneriaeth â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gyflwyno categori ar gyfer dysgwyr newydd, 'Dechrau Arni – dysgwyr Cymraeg', yn y Gwobrau Ysbrydoli! blynyddol ym mis Mehefin. Cyhoeddwyd astudiaethau achos am ddysgwyr Cymraeg fel rhan o'r Wythnos Addysg Oedolion.

Cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd gydag S4C i sicrhau bod gan ddysgwyr broffil uchel ar y sianel a bod darpariaeth addas ar eu cyfer. Cynhaliwyd trafodaethau gyda BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales, i ystyried cyfleoedd croes hyrwyddo a chynnwys am, ac ar gyfer, dysgwyr.

Cefnogi Dysgwyr

Y brif fenter newydd i gefnogi dysgwyr yn 2017-2018 oedd 'Siarad', cynllun i ddod â siaradwyr rhugl a dysgwyr at ei gilydd. Cynhaliwyd y cynllun mewn pedair ardal lle mae siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn treulio 10 awr gyda'i gilydd. Y nod yw meithrin hyder y dysgwyr wrth sgwrsio a'u cyflwyno i gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol. Bydd y cynllun ar waith ar draws Cymru o 2018-2019 ymlaen.

Mae'r Ganolfan yn cydweithio'n agos â'r Eisteddfod Genedlaethol. Cynhaliwyd cwis newydd ar gyfer dysgwyr, Y Cwis Mawr, fel rhan o Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Cydweithiwyd â'r Eisteddfod a Dysgu Cymraeg Caerdydd i sicrhau presenoldeb cryf ar gyfer dysgwyr ar y maes, gyda'r pafiliwn 'Shw'mae Caerdydd'. Lluniwyd cwrs blasu chwech-awr o hyd i gyflwyno geirfa ac ymadroddion i'w defnyddio yn yr Eisteddfod. Yn ogystal â chyflawni nod addysgiadol, mae'r cwrs yn ffordd o gyflwyno cynulleidfaoedd newydd i'r Eisteddfod ac o ddenu dysgwyr i gyrsiau prif ffrwd Medi 2018.

Cefnogwyd penwythnos i deuluoedd yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog a phenwythnos i oedolion yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn.

Cydweithiwyd â chwmni drama Mewn Cymeriad i lunio sioe i ddysgwyr o'r enw 'Taith yr Iaith', sy'n cyflwyno dyddiadau arwyddocaol yn hanes y Gymraeg. Cynhaliwyd perfformiad ym mhob sir yng Nghymru.

Ar ben hyn, cynhaliodd y darparwyr gannoedd o weithgareddau cymunedol ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys boreau coffi, clybiau darllen, cwisiau, tripiau a theithiau cerdded.

Mae grŵp cenedlaethol yn cwrdd i rannu arfer dda ac i ystyried sut gall y darparwyr gynyddu eu cefnogaeth i ddysgwyr wrth roi cyfleoedd iddynt ymarfer y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.



The Centre worked in partnership with the Learning and Work Institute to introduce a new category for new learners, 'Starting Out – Welsh beginner', at the annual Inspire! awards in June. Case studies on Welsh language learners were published as part of Adult Learners' Week.

Regular discussions were held with S4C to ensure that learners have a high profile and suitable provision on the channel. Discussions were held with BBC Radio Cymru and BBC Radio Wales, to consider opportunities for cross-promotion and content about and for Welsh learners.

Supporting Learners

The main new initiative for supporting learners in 2017-2018 was 'Siarad', a scheme to bring together fluent speakers and learners. The scheme was held in four areas where Welsh speakers and learners spent 10 hours together. The aim is to increase learners' confidence in conversation and introduce them to opportunities to use their Welsh locally. The scheme will be rolled out across Wales from 2018-2019.

The Centre cooperates closely with the National Eisteddfod. A new quiz for learners was held as part of the Cardiff National Eisteddfod. The Centre has cooperated with the Eisteddfod and Learn Welsh Cardiff to ensure a strong presence for learners on the 'maes', with the learners' pavilion called 'Shw'mae Caerdydd'. A six-hour taster course was produced to introduce vocabulary and phrases for use at the Eisteddfod. As well as meeting an educative aim, the course is a way to introduce new audiences to the Eisteddfod and attract learners to mainstream courses in September 2018.

The Centre supported a weekend for families at the Urdd residential centre in Llangrannog and a weekend for adults at the Urdd residential centre in Glan-llyn.

The Centre cooperated with the Mewn Cymeriad drama company to produce a show for learners entitled 'Taith yr Iaith' (Journey of the Language), presenting significant dates in the history of the Welsh language. Performances were held in all counties in Wales.

In addition, providers ran hundreds of community activities for learners, including coffee mornings, reading clubs, quizzes, trips and walks.

A national group meets to share good practice and consider how providers can increase their support for learners by providing them with opportunities to practise their Welsh outside class.

Siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn nghanolfan Soar, Merthyr Tudful, yn mwynhau siarad fel rhan o gynllun newydd y Ganolfan.
Welsh speakers and learners getting ready to 'siarad' as part of the new pairing scheme.

Amcan Strategol 3:

Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth

Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol

Roedd 2017-2018 yn gyfle i atgyfnerthu'r drefn newydd o rwydwaith o 11 o ddarparwyr yn cael eu cytundebu gan y Ganolfan i ddarparu cyrsiau ar ei rhan. Mae'r Ganolfan yn cydweithio'n agos â'r darparwyr. Cynhelir cyfarfodydd llawn gyda rheolwyr y darparwyr bob tymor yn ogystal â chyfarfodydd monitro unigol rheolaidd.

Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol

Lluniwyd Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol er mwyn cysoni'r gwasanaeth ac adnabod rhagoriaeth. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dangosyddion sy'n sicrhau bod y darparwyr yn gwneud pob ymdrech i roi'r dysgwr wrth galon y ddarpariaeth. O ganlyniad i'r Fframwaith, mae'r Ganolfan a'r darparwyr wedi cydweithio i gysoni arferion a dogfennaeth arsylwi gwersi ac wedi creu Cynllun Gwers cenedlaethol i diwtoriaid. Cydweithiwyd yn agos ag Estyn er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Ansawdd yn ateb gofynion hunan asesu ein darparwyr ac fe ffurfiodd ran amlwg o arolygiad Dysgu Cymraeg Morgannwg. Bydd y Ganolfan yn monitro cynnydd Dysgu Cymraeg Morgannwg yn erbyn argymhellion Estyn.

Strategic Objective 3:

Establish a network of providers to offer a service of excellence

National Quality Framework

2017-2018 provided an opportunity to consolidate the new stucture of 11 providers contracted by the Centre to provide courses on its behalf. The Centre works closely with its providers. Full meetings are held with provider management each term as well as regular individual monitoring meetings.

National Quality Framework

A National Quality Framework was drawn up to align services and identify excellence. The Framework includes indicators that ensure providers make every effort to place learners at the heart of the provision. As a result of the Framework, the Centre and its providers have cooperated to align tutor practice and observation documentation and created a national Lesson Plan for tutors. We have cooperated closely with Estyn to ensure the Quality Framework meets the self-assessment requirements of our providers and it formed a prominent part of the inspection of Learn Welsh Glamorgan. The Centre will monitor the progress of Learn Welsh Glamorgan against Estyn's recommendations.

Datblygu'r gweithlu

Yn sgil y gwaith ymchwil ar natur y gweithlu (tiwtoriaid y sector Dysgu Cymraeg) a gynhaliwyd yn ystod 2016-2017, lluniwyd Cynllun Datblygu'r Gweithlu. Mae'r Cynllun yn un uchelgeisiol sy'n cefnogi tiwtoriaid er mwyn sicrhau gweithlu proffesiynol, hyderus ac sy'n sefydlu rôl tiwtor fel opsiwn gyrfa atyniadol i unigolion proffesiynol o bob oed. Mae'r gwaith o adolygu'r Cymhwyster Cenedlaethol – cymhwyster penodol ar gyfer tiwtoriaid Dysgu Cymraeg - eisoes ar waith gyda'r nod o gyflwyno'r cymhwyster newydd o fis Medi 2019.

Rheoli a Chyhoeddi Data

Maes o law, bydd y Ganolfan mewn sefyllfa i gyhoeddi data perthnasol, ystyrlon a dibynadwy am bob un o'i dysgwyr. Yn sgil sefydlu'r Safle Rhyngweithiol, datblygwyd Cynllun Rheoli Data cynhwysfawr i roi arweiniad ar drefniadau casglu ac adrodd ar ddata. Mae'r Ganolfan hefyd wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru i fod yn Gyhoeddwr Ystadegau Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017. Disgwylir y bydd y Ganolfan yn dechrau cyhoeddi ystadegau manwl yn 2019.

Targedau

Yn y cyfamser, mae'r Ganolfan yn gallu adrodd ar y targedau a osodir i'r darparwyr. Y prif darged a gytunwyd gydag 11 darparwr y Ganolfan ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2016-2017 oedd darparu cyfleoedd dysgu prif ffrwd a dysgu atodol i 16,845 o ddysgwyr. Cyrhaeddwyd y targed hwnnw.

Targedau'r flwyddyn academaidd 2017-2018 ar gyfer y darparwyr yw darparu cyfleoedd dysgu prif ffrwd a dysgu atodol i 17,660 o ddysgwyr. Byddwn yn gallu adrodd ar y ffigyrau hyn yn ddiweddarach eleni.

Developing the workforce

In the light of research on the nature of the workforce (Learn Welsh sector tutors) carried out during 2016-2017, a Workforce Development Plan has been produced. This plan is ambitious and supports tutors in order to secure a professional, confident workforce and establish the role of tutor as an attractive career option for professional individuals of all ages. A review of the National Qualification – a specific qualification for Learn Welsh tutors - is already underway with the aim of introducing the new qualification from September 2019.

Data Management and Publication

In due course, the Centre will be in a position to publish relevant, meaningful and reliable data on all its learners. Following the establishment of the Interactive Site, a comprehensive Data Management Plan was developed to provide guidance on arrangements for gathering and reporting on data. The Centre has also been confirmed by the Welsh Government as an Official Statistics Order (Wales) 2017 Statistical Publisher. The Centre is expected to begin publication of detailed statistics in 2019.

Targets

Meanwhile, the Centre is able to report on targets set for its providers. The main target agreed with the Centre's 11 providers at the beginning of the academic year 2016-2017 was to provide mainstream and supplementary learning opportunities for 16,845 learners. This target was met.

The target for providers for the academic year 2017-2018 is to provide mainstream and supplementary learning opportunities for 17,660 learners. We will be able to report on these targets later this year.

Amcan Strategol 4:

Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu'r Gymraeg

Safle Rhyngweithiol
Ymgyrch Farchnata Genedlaethol

Safle Rhyngweithiol

Lansiwyd Safle Rhyngweithiol newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol - **dysgucymraeg.cymru** neu **learnwelsh.cymru** - ym mis Mai 2017. Am y tro cyntaf erioed, dyma blatfform aml-bwrpas, cenedlaethol ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r Safle yn cwmpasu:

- **Gwefan** – gan gynnwys y gallu i chwilio am gwrs, cofrestru a chreu proffil, a thalu ar-lein (o Haf 2018 ymlaen); gwybodaeth a newyddion.
- **System Rheoli Gwybodaeth** – System gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am ddysgwyr, gan adnabod cynnydd a phatrymau dysgu.
- **Platfform Dysgu Digidol** – cyfleoedd dysgu ar-lein rhyngweithiol, yn gyrsiau ac yn llyfrgell o adnoddau a gweithgareddau.

Mae modd i ddysgwyr a darpar ddysgwyr chwilio dros 2,000 o gyrsiau Dysgu Cymraeg ar draws Cymru ar y Safle. Mae dros 200 o adnoddau digidol newydd i gefnogi'r dysgu ar y Safle, a hyd yma (Mehefin 2018), mae dros 20,000 o gyfrifon wedi'u creu.

Strategic Objective 4:

Raise the profile of the sector and increase the numbers who start courses and continue to learn Welsh

Interactive Site
National Marketing Campaign

Interactive Site

The Centre's new Interactive Site – **learnwelsh.cymru** or **dysgucymraeg.cymru** – was launched in May 2017. For the first time ever we have a national multi-purpose platform for the Learn Welsh sector. The Site comprises:

- **Website** – including the ability to search for a course, register and create a profile, and pay online (from summer 2018); information and news.
- **Information Management System** – a comprehensive system to gather information on learners, identify progress and learning patterns.
- **Digital Learning Platform** – interactive online learning opportunities, including courses and a library of resources and activities.

Learners and prospective learners can search over 2,000 Learn Welsh courses across Wales on the Site. There are over 200 new digital resources to support learning on the Site, and over 20,000 accounts have been created to date (June 2018).

Delweddau o ymgyrch farchnata'r Ganolfan.
Images from the Centre's recruitment campaign.

Ymgyrch Farchnata Genedlaethol

Y Ganolfan sy'n gyfrifol am arwain yn strategol ar y gwaith marchnata ar gyfer y sector. Mae'r Ganolfan yn trafod y cynlluniau gyda'r Pwyllgor Marchnata Cenedlaethol ac mewn cyfarfodydd unigol gyda swyddogion marchnata'r darparwyr.

Mae'r Ganolfan yn canolbwyntio ar ddefnyddio dulliau cyfryngau torfol er mwyn cyrraedd y gynulleidfa fwyaf posib ledled Cymru. Rôl y darparwyr yw adlewyrchu ac atgyfnerthu'r gwaith hwnnw yn lleol. Mae adroddiadau ar y gweithgareddau marchnata lleol yn ffurfio rhan o adroddiadau'r darparwyr i'r Ganolfan.

Cynhaliwyd prosiect ymchwil fel rhan o Omnibws Cymru Beaufort ym Mawrth 2016 a edrychodd ar brif resymau pobl dros ddysgu'r Gymraeg. Mae canlyniadau'r prosiect wedi bod yn sail i'r thema 'Rhesymau dros ddysgu', a ddefnyddiwyd ar gyfer prif ymgyrch farchnata haf 2017.

Nod yr ymgyrch oedd denu dysgwyr newydd i gofrestru ar gyrsiau Mynediad ym mis Medi 2017; annog dysgwyr cyfredol i ddilyn cyrsiau pellach; a chreu argraff bositif o ddysgu'r Gymraeg. Crëwyd hysbysebion fideo, sain a llonydd yn cyfeirio defnyddwyr at y Safle Rhyngweithiol ar gyfer y teledu a radio, ar-lein a thu allan.

Gwerthuswyd yr ymgyrch yn llawn, a thrwy'r Safle Rhyngweithiol, mae modd casglu data cywir, gan gynnwys nifer y cliciau o ganlyniad i'r ymgyrch a nifer y cofrestriadau.

Roedd naid yn nifer y defnyddwyr (unigolion), sesiynau (cyfnodau o amser) a 'views' (golwg ar dudalennau o fewn y sesiynau) ar y Safle oedd yn cyd-fynd â dechrau'r ymgyrch ar ddechrau Gorffennaf. Fe barhaodd y niferoedd i gynyddu yn ystod mis Awst, gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Medi, cyn gostwng ym mis Hydref. Mae'r patrwm yn galonogol ac yn awgrymu bod yr ymdrechion marchnata wedi ennyn ymateb.

Cefnogi ymgyrchoedd sefydliadau eraill

Cefnogodd y Ganolfan ymgyrch Dydd Miwsig Cymru Llywodraeth Cymru trwy gomisiynu rhaglen radio wedi'i chyflwyno gan ddysgwyr a ddarlledwyd ar wefan Cymru FM. Lluniodd y Ganolfan wers gyfoes am gerddoriaeth boblogaidd Gymraeg hefyd.

Mae'r Ganolfan wedi cydweithio â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i adnabod astudiaethau achos am ddysgwyr i'w defnyddio i hybu Wythnos Addysg Oedolion.

National Marketing Campaign

The Centre is responsible for strategic leadership in marketing the sector. The Centre discusses plans with the National Marketing Committee and at individual meetings with the providers' marketing officers.

The Centre focuses on using mass media tools to reach the widest possible audience throughout Wales. The providers' role is to reflect and consolidate this work locally. Reports on local marketing activities form part of the providers' reports to the Centre.

A research project carried out as part of the Beaufort Wales Omnibus in March 2016 looked at people's main reasons for learning Welsh. The results of this project have formed the basis for the 'Reasons for learning' theme used for the main marketing campaign in summer 2017.

The aim of that campaign was to attract new learners to register on Entry level courses in September 2017; encourage current learners to follow further courses; and create a positive impression of learning Welsh. Video, audio and stills advertisements were created for television and radio, online and outdoors, referring users to the new Interactive Site.

The campaign was fully evaluated, and the Interactive Site allows us to gather accurate data, including the number of clicks generated as a result of the campaign and the number of registrations.

There was a spike in the number of users (individuals), sessions (periods of time) and views (of pages within sessions) on the Site to coincide with the start of the campaign at the beginning of July. Numbers continued to increase during August, reaching a peak in September, before falling in October. The pattern is encouraging and suggests marketing efforts had an impact.

Supporting campaigns by other institutions

The Centre supported the Welsh Government's Dydd Miwsig Cymru/Welsh Language Music Day by commissioning a radio programme presented by learners broadcast on the Cymru FM website. The Centre also produced a contemporary lesson on Welsh language popular music.

The Centre has worked with the Learning and Work Institute to identify case studies on learners for use in promoting Adult Learners' Week.

Amcan Strategol 5:

Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth

Cyllideb
Llywodraethiant
Staffio

Crynodeb o gyllideb y Ganolfan

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2017-2018 derbyniodd y Ganolfan £1,852,000 tuag at y gwaith o roi arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg a datblygu adnoddau cenedlaethol, a £8,810,000 i'w dosbarthu i'w darparwyr ledled Cymru. Yn ogystal, derbyniwyd swm o £2,543,000 (Ebrill 2017-Mawrth 2018) tuag at y cynllun Cymraeg Gwaith. Bydd cyfrifon llawn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-2018 ar gael ym mis Rhagfyr 2018.

Strategic Objective 5:

Establish and maintain service support procedures

Budget
Governance
Staffing

Budget summary

During the academic year 2017-2018 the Centre received £1,852,000 towards the work of providing strategic direction for the sector and developing national resources; and £8,810,000 for distribution to the Centre's providers across Wales. In addition, the sum of £2,543,000 (April 2017-March 2018) was awarded to the Work Welsh programme. Full accounts for the academic year 2017-2018 will be available in December 2018.

Crynodeb o gyllideb pob darparwr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-2018

Enw'r darparwr	Sefydliad	Ardal Llywodraeth Leol	Dyraniad
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor/Grŵp Llandrillo Menai	Gwynedd, Môn, Conwy	£1,557,580
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	Dinbych, Fflint, Wrecsam	£1,066,320
Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	Ceredigion, Powys, Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)	£1,174,440
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)	£150,000
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot	£900,305
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	Sir Benfro	£303,965
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili	£1,156,465
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Sir Bro Morgannwg	Bro Morgannwg	£283,840
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd	£1,008,420
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr	£1,038,665
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	Cenedlaethol	£170,000

Budget summary for each provider for the academic year 2017-2018

Provider Name	Institution	Local Government Area	Allocation
Learn Welsh North West	Bangor University/ Grŵp Llandrillo Menai	Gwynedd, Anglesey, Conwy	£1,557,580
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Denbigh, Flint, Wrexham	£1,066,320
Learn Welsh Ceredigion – Powys – Carmarthenshire	Aberystwyth University	Ceredigion, Powys, Carmarthenshire (specific part of provision)	£1,174,440
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	Carmarthenshire (specific part of provision)	£150,000
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	Swansea, Neath and Port Talbot	£900,305
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	Pembrokeshire	£303,965
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	Monmouthshire, Newport, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerphilly	£1,156,465
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan County Council	Vale of Glamorgan	£283,840
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	Cardiff	£1,008,420
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Bridgend	£1,038,665
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Residential Centre	National	£170,000

Yn ogystal â hyn, yn ystod y flwyddyn, fe weithredodd y Ganolfan gynllun Grantiau Arloesi, i gefnogi syniadau gwreiddiol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd anodd eu chyrraedd.

Buddsoddwyd yn y Grantiau Arloesi canlynol:

Cyflenwr	Prosiect	Swm a ddyfarnwyd
Dysgu Cymraeg Gwent	Ymgysylltu â grwpiau aml-ddiwylliannol (BME)	£12,000
Dysgu Cymraeg Y Fro	Clwb Ni (plant mewn ysgolion Cymraeg)	£26,000
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Camu 'Mlaen (prosiect cymunedol)	£27,000
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prosiect Port Talbot	£30,000
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Cynllun Cymhathu Dysgwyr	£35,000
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Agor y Drws: Cyflwyniad i ddiwylliant Cymraeg	£55,350
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Cynlluniau Cymraeg i ffoaduriaid a rhieni mewn ardaloedd penodol	£75,000
Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr	Rhaglen Ddwys Integredig Cymraeg i'r Teulu	£136,500
Cyfanswm		**£396,850**

Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Penodwyd Bwrdd Cyfarwyddwyr, sef:

Enw	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	
Yr Hybarch Randolph Thomas	6 Ionawr 2016	-	
Maria Stedman	6 Ionawr 2016	-	
Eifion Griffiths	6 Ionawr 2016	-	
Dr Haydn E Edwards	20 Ebrill 2016	15 Gorffennaf 2017	Wedi ymddiswyddo

In addition, during the year, the Centre implemented an Innovation Grant Scheme, to support original ideas for engaging difficult-to-reach audiences.

The following Innovation Grants were awarded:

Supplier	Project	Sum awarded
Learn Welsh Gwent	Engaging with multicultural groups (BME)	£12,000
Learn Welsh The Vale	Clwb Ni (Children in Welsh-medium schools)	£26,000
Learn Welsh North East	Camu 'Mlaen (community project)	£27,000
Learn Welsh Swansea Bay Area	Port Talbot Project	£30,000
Learn Welsh North West	Learner Integration Scheme	£35,000
Learn Welsh Pembrokeshire	Agor y Drws: A Snapshot of Welsh Culture + Taste of Welsh	£55,350
Learn Welsh Cardiff	Welsh courses for refugees and parents in specific areas	£75,000
Learn Welsh Ceredigion – Powys – Carmarthenshire	Welsh for the Family Integrated Intensive Programme	£136,500
Total		**£396,850**

Governance

The National Centre for Learning Welsh is a Company Limited by guarantee without share capital. The only member of the company under the Articles of Association is the University of Wales Trinity Saint David. A Board of Directors has been appointed:

Name	Start Date	End Date	
The Venerable Randolph Thomas	6 January 2016	-	
Maria Stedman	6 January 2016	-	
Eifion Griffiths	6 January 2016	-	
Dr Haydn E Edwards	20 April 2016	15 July 2017	Resigned

Adrian Evans yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol y Ganolfan yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Bwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni y Ganolfan sy'n sicrhau rheolaeth ariannol briodol a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson. Bwrdd Cyfarwyddwyr y Ganolfan sy'n sicrhau perfformiad yn erbyn prif ddangosyddion perfformiad corfforaethol y Cwmni.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn a chynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 7 Mehefin 2018.

O dan Erthyglau Cymdeithasu y Cwmni, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan.

Swyddogaeth y Bwrdd Ymgynghorol o dan yr Erthyglau Cymdeithasu yw sicrhau bod y Ganolfan:

- yn cyflawni ei hamcanion strategol o ran y sector Dysgu Cymraeg trwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr.
- yn cyflenwi gwasanaethau i'r sector Dysgu Cymraeg yn unol â'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru.
- yn cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes.

Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol, a benodwyd trwy broses agored, yw:

Enw	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	
Dr Haydn E Edwards	1 Ionawr 2015	31 Rhagfyr 2018	
Tim Hartley	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2019	
Owain Gruffydd	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2019	
Ann Hughes	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2019	
Ann Jones	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2019	
Merfyn Morgan	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2019	
Nia Parry	1 Ebrill 2016	2 Chwefror 2017	Wedi ymddiswyddo
Dr Jonathan Morris	1 Medi 2017	31 Awst 2020	
Huw Dylan Owen	1 Medi 2017	31 Awst 2020	

Mae gwaith y Ganolfan hefyd yn cael ei archwilio gan Bwyllgor Craffu annibynnol a sefydlwyd gan y Llywodraeth.

Aelodau'r Pwyllgor Craffu yw:

- Steve Morris (Cadeirydd)
- Anna Skalistira-Bakratseva
- Dr Helen Barlow
- Richard Houdmont
- Yr Athro Huw Williams

The Company Secretary is Adrian Evans.

The corporate and constitutional aspects of the Centre are the responsibility of the Board of Directors. The Board of Directors ensures appropriate and transparent financial management, together with robust and consistent risk management. The Board of Directors ensures performance against the Company's main corporate performance indicators.

The Board of Directors met regularly during the year and the Annual Meeting was held on 7 June 2018.

Under the Company's Articles of Association, an Advisory Board was appointed.

The role of the Advisory Board under the Articles of Association is to ensure that the Centre:

- meets its strategic objectives for the Learn Welsh sector by transforming the provision for learners.
- delivers services to the Learn Welsh sector in line with the vision and priorities presented in the successful bid to the Welsh Government.
- agrees national targets for the sector.

The Advisory Board's members, appointed through an open process, are:

Name	Start Date	End Date	
Dr Haydn E Edwards	1 January 2015	31 December 2018	
Tim Hartley	1 April 2016	31 March 2019	
Owain Gruffydd	1 April 2016	31 March 2019	
Ann Hughes	1 April 2016	31 March 2019	
Ann Jones	1 April 2016	31 March 2019	
Merfyn Morgan	1 April 2016	31 March 2019	
Nia Parry	1 April 2016	2 February 2017	Resigned
Dr Jonathan Morris	1 September 2017	31 August 2020	
Huw Dylan Owen	1 September 2017	31 August 2020	

The Centre's work is also examined by an independent Scrutiny Committee set up by the Welsh Government.

The Scrutiny Committee's members are:

- Steve Morris (Chair)
- Anna Skalistira-Bakratseva
- Dr Helen Barlow
- Richard Houdmont
- Professor Huw Williams

Staffio

O dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae'r Ganolfan wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth. Y Gyfarwyddiaeth Strategol sy'n gyfrifol am agweddau cwricwlaidd; y Gyfarwyddiaeth Systemau sy'n gyfrifol am gyllid a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys Cymraeg Gwaith, a'r Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r sector.



Mae 16 aelod o staff y Ganolfan yn gweithio o'r pencadlys yng Nghaerfyrddin a swyddfeydd yng Nghaerdydd, Aberystwyth, Llaneurgain, Bangor a Threfforest.

Staffing

Led by the Chief Executive, the Centre is divided into three directorates. The Strategic Directorate is responsible for curricular aspects; the Systems Directorate is responsible for finance and performance management systems and special projects, including Work Welsh, and the Marketing and Communications Directorate is responsible for promoting the sector.



The Centre has 16 members of staff, working from its headquarters in Carmarthen and offices in Cardiff, Aberystwyth, Northop, Bangor and Treforest.

Cysylltu â ni

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg
Genedlaethol
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EP

Ffôn: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

@learncymraeg

Contact us

National Centre for
Learning Welsh
College Road
Carmarthen
SA31 3EP

Telephone: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

@learncymraeg